

Comisiynydd Plant Cymru

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020

Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Fel Comisiynydd Plant Cymru, fy uchelgais i yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Mae fy nghynllun cydraddoldeb strategol yn amlinellu sut rwy'n bwriadu sicrhau bod fy nhîm a minnau'n gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn tyfu i fyny mewn gwlad lle mae cydraddoldeb a hawliau dynol plant yn ganolog i sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Yn 2016 mae llawer iawn o blant a phobl ifanc yn byw bywydau diogel, hapus a gweithredol, ac yn teimlo eu bod yn cael gwrandawriad a pharch gan yr oedolion o'u cwmpas. Fodd bynnag, mae grwpiau mawr o blant a phobl ifanc sy'n colli mas mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae plant wedi dweud wrthyf fi eu bod nhw'n dioddef camwahaniaethu neu'n wynebu rhwystrau ychwanegol oherwydd eu hoed, oherwydd eu hanabledd, oherwydd eu hil a/neu eu crefydd, oherwydd eu bod yn LHDT, neu oherwydd eu rhywedd.

Mae'r sefyllfa hon yn annerbyniol. Rwy'n gweld y cynllun cydraddoldeb yma nid yn unig fel offeryn i sicrhau bod fy sefydliad yn un amrywiol, lle mae fy staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg, ond hefyd yn fodd i wneud newidiadau gweladwy i fywydau plant a phobl ifanc.

Mae fy holl waith wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP); cytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc 18 oed a iau. O dan y cyfreithiau a sefydlodd y swyddfa hon, mae disgwyl i mi amddiffyn a hybu'r hawliau hyn i blant a phobl ifanc, a bydda i'n gwneud hynny fel a ganlyn:

- Annog gwasanaethau cyhoeddus i ymrwymo i gyflawni'r hawliau plant sydd wedi'u crisialu yn CCUHP, a chynllunio a chyflwyno eu gwasanaethau mewn modd sy'n seiliedig ar hawliau plant. Byddaf yn ceisio dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y Llywodraeth a'u ffurfio, fel eu bod yn cyflawni ym maes hawliau plant.

- Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd heb dderbyn eu hawliau, gan geisio ymdrin â goblygiadau systemig achosion o'r fath, a herio gwasanaethau i wneud yn well yn y dyfodol. Byddaf yn gwneud y pethau hyn drwy wrando ar blant a phobl ifanc a chydweithio â nhw fel dinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'w hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl.
- Gwrando ar y plant a'r bobl ifanc a all wynebu'r anhawster mwyaf o ran derbyn eu hawliau, gan gynnwys plant anabl, plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n perthyn i leiafrifoedd ethnig, ieithyddol a rhywiol. Bydda i'n mesur sut rwy'n ymgysylltu â gwahanol grwpiau ledled Cymru fel bod modd i blant a phobl ifanc fy ngalw i gyfrif am hynny.

Does dim byd newydd i'r swyddfa hon o ran gweithio ym maes cydraddoldebau. Ers 2011 mae'r tîm wedi rhoi sylw i'r dyletswyddau hyn mewn llawer agwedd ar ein gwaith. Mae'r cynllun penodol hwn yn amlinellu sut byddwn ni'n gwreiddio cydraddoldebau ymhellach yn ein harferion gwaith, a sut mae hynny'n cydweddu â'n cynllun strategol newydd tair blynedd "Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc 2016-2019".

Y Cyd-destun – Deddf Cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010 gan ddarparu fframwaith cyfreithiol a fydd yn diogelu hawliau unigolion ac yn hybu cyfle cyfartal i bawb

Un o brif nodweddion y Ddeddf yw **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'), a ddisodlodd ddyletswyddau ar wahân ar gyfer cydraddoldeb hil, anabled a rhywedd, a daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011. Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio polisiau a chyflwyno gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen am wneud y canlynol:

- Dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a phobl nad ydynt; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a phobl nad ydynt.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion canlynol a amddiffynnir:

- Oed;
- Ailbennu rhywedd;
- Rhyw;
- Anabledd;
- Beichiogrwydd a mamolaeth;
- Cyfeiriadedd rhywiol;
- Hil - yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd; a
- Chrefydd neu gred - yn cynnwys diffyg cred.

Mae hyn yn berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond yng nghyswllt y gofyniad i ddileu camwahaniaethu ym maes cyflogaeth.

Weithiau defnyddir yr ymadrodd 'grŵp a amddiffynnir' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir.

Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder. Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru, ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru eu cymryd er mwyn dangos eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

Cyflwynir y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb (Cymru) (Dyletswyddau Statudol) 2010. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cwmpasu:

- Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltiad a dyletswydd cydraddoldeb
- Asesu effaith a dyletswydd cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb a dyletswydd cydraddoldeb

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

- Gwybodaeth am Gyflogaeth, Gwahaniaethau Tâl a Hyfforddiant Staff a dyletswydd cydraddoldeb
- Caffael a dyletswydd cydraddoldeb

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn destun Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Rheoliadau) Cymru 2011 ac mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu sut bydd hi'n cyflawni'r dyletswyddau hynny.

Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001 yw Comisiynydd Plant Cymru (ComPlantCymru). Prif nod y Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae Comisiynydd Plant Cymru am weld Cymru sy'n wlad lle mae plant a phobl ifanc yn cael parch, gwerthfawrogiad, gwrandawriad a chefnogaeth i fyw bywydau diogel a hapus. Ei huchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Mae'r Comisiynydd yn hybu hawliau plant a phobl ifanc o dan CCUHP.

Mae tîm o bobl yn gweithio gyda Sally Holland, y Comisiynydd Plant i'w helpu i wneud y pethau hyn

- Cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant;
- Gwrando ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw;
- Cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt os byddant yn teimlo na allant droi at neb arall gyda'u problemau;
- Dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc; a
- Chodi llais dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig - bod yn bencampwr plant yng Nghymru.

Cytuniad hawliau dynol rhyngwladol yw Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc 18 oed a iau. Hwn yw'r offeryn hawliau dynol rhyngwladol a gadarnhawyd ehangaf, ac mae'n rhoi i blant a phobl ifanc ystod eang o hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, y mae disgwyl i Bartïon Gwladol y Confensiwn eu gweithredu. Y confensiwn hwn sy'n darparu sylfaen ar gyfer ein holl waith.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

Pedair egwyddor gyffredinol CCUHP yw:

- Dim camwahaniaethu;
- lles pennaf y plentyn;
- yr hawl i fywyd, goroesi a datblygu; a
- pharch at farn y plentyn.

Gweledigaeth Comisiynydd Plant Cymru

Byddwn ni'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac ar eu rhan i hyrwyddo'u hawliau dynol.

Ein huchelgais fydd Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.

Nodau Strategol 2016-2019

- Cyflawni newidiadau pendant, cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru a'u gallu i gyrchu eu hawliau;
- Cadw hawliau plant yn ganolog i'n gwaith a gweithio gyda holl wasanaethau cyhoeddus Cymru i gyflawni'r un nod;
- Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gael mynediad i'w hawliau;
- Cynnwys arbenigedd plant a phobl ifanc wrth lywio a chyfeirio ein gwaith, a gweithio gyda phob gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni'r un nod; a
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod bod ganddyn nhw bencampwr annibynnol o'r enw Comisiynydd Plant Cymru a bod ganddyn nhw hawliau o dan CCUHP.

Beth Nesa? What Next?

Pan ddechreuais i yn fy swydd fel Comisiynydd ym mis Ebrill 2015, y peth cynta roeddwn i eisiau gwneud oedd darganfod ar beth roedd plant a phobl ifanc Cymru yn meddwl dylwn i ganolbwyntio.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

Fe gychwynnais i ar brosiect o'r enw Beth Nesa / What Next? (neu Beth Nesa yn gryno) oedd yn fater o siarad â chynifer o blant a phobl ifanc â phosibl ynghylch eu profiadau o fywyd pob dydd, y gwasanaethau roedden nhw'n eu defnyddio, yr ysgolion maen nhw'n mynd iddyn nhw, a'r cymunedau lle maen nhw'n byw. Mae'r canlyniadau wedi bwydo i'n cynllun strategol newydd tair blynedd - Cynllun ar gyfer Pob Plentyn a Pherson Ifanc - a'r cynllun cydraddoldeb newydd hwn.

Roeddwn i eisiau gallu adlewyrchu'r gwir am fywydau plant yng Nghymru, felly roedd fy ymgynghoriad yn drylwyr ac yn eang, gan gwmpasu dau gyfnod o ymgysylltu. Roedd y cyfnod cyntaf yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chynhyrchodd yr ail gyfnod gyfres helaeth, hygyrch o arolygon er mwyn casglu'r amrywiaeth o safbwyntiau roedden ni'n chwilio amdanynt.

Yng nghyfnod un, bu'r tîm a minnau'n cwrdd â mwy na 1000 o blant a phobl ifanc, a mwy na 200 o ofalwyr mewn oed a gweithwyr proffesiynol i gael sgysiau strwythuredig ynghylch eu bywydau pob dydd a'u pryderon, a'u barn ynghylch beth ddylai fod yn flaenoriaethau i fi. Yn ystod y cyfnod yma fe ges i'r fraint o wrando ar blant a phobl ifanc oedd yn byw mewn lluo o wahanol amgylchiadau. Fe dreuliais i amser gyda phlant cyn-ysgol yng Nghaerffili, gofalwyr ifanc ym Mhowys, pobl ifanc oedd yn byw mewn hosteli yn ardal Castell-nedd Port Talbot ac Ynys Môn, plant anabl a'u gofalwyr mewn ysgolion ac mewn hosbis, pobl ifanc oedd yn cael triniaeth mewn lleoliadau iechyd meddwl yng Ngogledd a De Cymru, Ffermwyr Ifanc, Sgowtiaid a Geidiau, a llawer o ysgolion a chynghorau ieuenctid.

Bu fy Llysgenhadon Gwych ysgolion cynradd yn cymryd rhan mewn gweithdai yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru, a darparodd fy Llysgenhadon Cymunedol wybodaeth amhrisiadwy am eu profiadau fel pobl ifanc anabl, Sipsiwn a Theithwyr, aelodau o Gymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du, a'r rhai sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Cymru. Fe fues i'n gwrandao ar ymadawyr gofal o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a mynegodd cannoedd o blant eu barn yn Eisteddfod yr Urdd.

Lluniwyd yr arolygon i'm helpu i ddeall y materion sy'n bwysig ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Roedd arolygon ar gyfer plant 3-7 oed, plant 7-11 oed a phobl ifanc 11-18 oed. Cwblhaodd dros 6000 o blant a phobl ifanc yr arolygon, a chwblhaodd bron 1000 o oedolion yr un ar gyfer gweithwyr proffesiynol/oedolion.

Y peth oedd yn rhoi mwyaf o foddhad ynghylch yr arolwg oedd ei fod wedi grymuso llawer o blant a phobl ifanc fyddai ddim fel arfer yn cael eu cynnwys mewn arolygon o'r math yma. Roedd hyn yn cynnwys plant ifanc iawn (758 o blant 3-7 oed), a phlant a phobl ifanc sydd ddim yn yr ysgol oherwydd eu bod yn y ddalfa, yn yr ysbyty neu wedi gadael yr ysgol.

Roedd y plant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn adlewyrchu poblogaeth Cymru o ran oed, rhywedd, rhanbarth ac amgylchiadau sosio-economaidd, sy'n fy ngalluogi i seilio'r amcanion cydraddoldeb sy'n dilyn, yn ogystal ag amcanion cyffredinol fy sefydliad, ar dystiolaeth gadarn.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-2016

Mae cynllun cydraddoldeb strategol cyntaf Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru 2012-2016 wedi cyfrannu at sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i wreiddio i ddull y swyddfa o weithredu a sut mae'r staff yn meddwl am eu gwaith. Ymhlith y datblygiadau allweddol mae

Ymgysylltiad – Mae Comisiynydd Plant Cymru a'i staff yn ymgysylltu fel mater o drefn ag ystod eang o blant a phobl ifanc. Gall hyn ddigwydd yn unigol, o fewn ysgolion fel rhan o raglen y Llysgenhadon, mewn clybiau ieuencid, ar draws fforymau ieuencid y 22 awdurdod lleol, gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (y Ddraig Ffyni), gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau wedi'u targedu o blant a phobl ifanc, e.e. sipsiwn a theithwyr, wyneb yn wyneb trwy waith cynghori, mewn cynadleddau a seremonïau gwobrwyo neu'n electronig trwy twitter, backchat, e-bost, a'n gwefan, neu trwy ohebiaeth ysgrifenedig, ffôn a thestun.

Byddwn ni'n mabwysiadu gwahanol lefelau o ymgysylltiad, yn dibynnu ar y prosiect a'r plant a'r bobl ifanc dan sylw. Gallwn ymgysylltu â grŵp unwaith, er enghraifft ymweliad ag ysgol neu fel rhan o banel recriwtio ar gyfer aelodau newydd o staff; gall fod prosiect amser-gyfyngedig megis ymgynghoriad byr ar un o bolisiâu Llywodraeth Cymru neu adolygiad o wasanaethau megis adolygiad Lleisiau Coll yn 2011 (1 neu 2 fis fel arfer). Mae hefyd berthnasoedd tymor hwy sy'n parhau, fel ein Cynllun Llysgenhadon a'r gwaith ar y cyd â'r Ddraig Ffyni.

Fel y soniwyd eisoes, yn ystod 2015 cynhaliodd y Comisiynydd ddigwyddiad ymgynghori ar raddfa fawr gyda phlant a phobl ifanc - Beth Nesa - i gael gwybod gan blant a phobl ifanc ar beth roedden nhw'n meddwl dylai hi ganolbwyntio yn ystod ei chyfnod fel Comisiynydd.

Datblygiadau yn y Gweithle

- Datblygu cynllun gwaith blynyddol a chorfforaethol sy'n rhoi sylw dyledus i'r angen am ddileu camwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da;
- Mae data monitro am gydraddoldeb y gweithlu yn cael eu casglu a'u dadansoddi'n flynyddol ac yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru;

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

- Mae holiadur i ymwelwyr ynghylch cyfleusterau'r swyddfa wedi cael ei ddatblygu a'i weithredu, er mwyn ein helpu i wella'r agweddau ymarferol ar ein safle, a sicrhau ein bod yn sensitif i anghenion y rhai sy'n dod yno ar ymweliad;
- Yn 2013 fe wnaethon ni roi system derbynnydd awtomatig newydd ar waith, gan gynnig dewis iaith i alwyr Cymraeg a Saesneg;
- Mae holl arwyddion y swyddfa'n cydymffurfio â safonau'r iaith Gymraeg;
- Sefydlwyd grwp Materion Gweithwyr mewnol i ddadansoddi ac archwilio'n fanylach y materion sy'n effeithio ar brofiad y gweithiwr, ac a amlygwyd mewn arolygon staff blynyddol. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu cytuno a'u gweithredu, gyda'r nod o wella profiad y gweithiwr;
- Rydym ni'n cynnwys plant a phobl ifanc fel mater o drefn wrth recriwtio staff, ac fe wnaethon ni gefnogi Llywodraeth Cymru i gynnwys plant a phobl ifanc wrth benodi'r Comisiynydd presennol;
- Rydym ni'n cynnwys adran cydraddoldebau gyda data cydraddoldebau perthnasol yn ein Hadroddiad Blynyddol a gyhoeddir i Lywodraeth Cymru;
- Rydym ni'n casglu ystadegau am y gweithlu yng nghyswllt Ethnigrwydd, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Anabled, sydd wedyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu camau gweithredu cadarnhaol yng nghyswllt cydraddoldeb bob blwyddyn;
- Rydym wedi gwella estyniad ein hymgyrchoedd recriwtio i sicrhau ein bod ni'n hysbysebu mewn amrywiaeth ehangach o fforymau priodol er mwyn cyrraedd cymuned fwy amrywiol. Er enghraifft trwy fod yn aelod o raglen hyrwyddo Amrywiaeth Stonewall rydym wedi gallu gosod ein hysbysebion recriwtio ar wefan y Cyflogwyr Balch;
- Fe wnaethon ni adolygu ein pecyn recriwtio yn 2013-2014 gan gadw amrywiaeth mewn cof, fel ein bod ni'n hyrwyddo manteision ehangach ein sefydliad yn fwy effeithiol, er enghraifft y cylch gorchwyl a'r effaith ar lefel genedlaethol, ein hamodau gweithio hyblyg, arferion rheoli pobl cefnogol, mynediad at gyfleoedd datblygu a hygyrchedd ein safleoedd;
- Mae ein systemau rheoli data electronig wedi cael sylw i sicrhau eu bod yn casglu'r data perthnasol am gydraddoldebau;
- Yn 2013 fe wnaethon ni ymuno â'r cynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth sydd yng ngofal Stonewall Cymru. Manteision yr aelodaeth hon yw cyfryngau newydd ar gyfer hysbysebu sy'n targedu'r gymuned LHDT, erthygl olygyddol ar ein gweithle yn eu canllaw gyrfaedd, a chefnogaeth i wella ein gwaith cydraddoldebau ar draws yr holl nodweddion a amddiffynnir trwy ddefnyddio fframwaith eu mynegai cydraddoldeb yn y gweithle i helpu i strwythuro ein gwaith ein hunain yng nghyswllt cydraddoldebau;
- Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb - Mae'r swyddfa wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer yr holl staff i'w galluogi i gwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi dod yn rhan annatod o'r broses gynllunio gorfforaethol;
- Er mwyn estyn ein cyrhaeddiad at bobl ifanc hŷn (12-17) rydym wedi peilota ein cynllun Llysgenhadon Gwych mewn chwe ysgol uwchradd, gyda golwg ar estyn hynny i bob ysgol uwchradd yn ystod 2016/17;
- Mae ein dogfennau cwynion wedi cael eu diwygio ac ar gael yn Gymraeg, Saesneg, ieithoedd eraill, ar dâp sain, ac mewn print bras; ac
- Rydym wedi llofnodi'r siarter Traws*Newid sy'n hyrwyddo hawliau pobl ifanc traws.

Adroddiadau/Cyhoeddiadau/Ymholiadau Penodol ynghylch Cydraddoldeb

- “Bywydau Llawn (2014)” – Ymchwilio i'r ddarpariaeth egwyliau byr ar gyfer gofalmwyr plant anabl yng Nghymru;
- “Bywydau Llawn, Mynediad cyfartal (2014)” - Adroddiad sbotolau ar hygyrchedd ysgolion uwchradd yng Nghymru i gadeiriau olwyn;
- “Herio'r adroddiadau negyddol a geir yn y cyfryngau am Sipsiwn a Theithwyr (2015)” - Canllaw a ddatblygwyd ar gyfer pobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr i helpu i leihau effaith negyddol cynrychiolaeth negyddol o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma mewn geiriau a lluniau yn y cyfryngau;
- “Bechgyn a Merched yn Codi Llais (2013)” – Astudiaeth ansoddol o rywedd plant a diwylliant rhywiol (10-12 oed) mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd a'r NSPCC;
- “Herio'r adroddiadau negyddol a geir yn y cyfryngau am y gymuned LHDT(2016)” - Canllaw a ddatblygwyd ar gyfer aelodau o'r gymuned LHDT i helpu i leihau effaith negyddol cynrychiolaeth negyddol o gymunedau LHDT mewn geiriau a lluniau yn y cyfryngau;
- “Beth Nesa? What Next? (2016) - Adroddiad ymgynghoriad Comisiynydd Plant Cymru gyda phlant a phobl ifanc Cymru; ac
- Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i CAMHS - Cefnogwyd pobl ifanc i roi tystiolaeth a hybu hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael mynediad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn y gymuned.

Datblygu'r Gweithlu

Fel rhan o'n cynllun Dysgu a Datblygu Blyneddol ar gyfer y staff rydym wedi cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldebau i'r holl staff. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant ar y Ddeddf Cydraddoldeb Strategol, Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb, hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg, a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Trawsrywedd.

Amcanion Cydraddoldeb

Rwyf wedi gosod pedwar amcan cydraddoldeb strategol yr wyf fi'n credu fydd yn fy ngalluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yng ngweithrediad beunyddiol fy sefydliad. Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn parhau i gael eu cynnwys yn nyluniad polisïau a chyflwyniad gwaith, ac fe'u hadolygir yn barhaus. Seilir yr amcanion ar gynlluniau gweithredu manylach a gaiff eu pennu a'u hadolygu yn flynyddol. Mae'r cynllun gweithredu sy'n darparu sylfaen ar gyfer fy strategaeth yn ymgorffori amcanion penodol yng nghyswllt yr holl nodweddion a amddiffynnir.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 1 – Mae ein harweinyddiaeth a'n llywodraethu yn sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn ein holl brosesau cynllunio.

Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol sefydledig bydda i'n sicrhau bod amcanion cydraddoldeb yn cael eu gwreiddio yn ein holl brosesau cynllunio sefydliadol. Rydym wedi bod yn mireinio'r prosesau hyn yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, ynghyd â'n gallu i gasglu a dadansoddi tystiolaeth gysylltiedig â chydraddoldeb o'n gwaith. Bydda i'n ymdrechu i sicrhau ein bod ni bob amser yn gwella sut rydym ni'n gweithio, yn ogystal â darparu arweinyddiaeth a gweithredu fel esiampl i gyrrff cyhoeddus eraill y bydda i'n eu galw i gyfrif.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 2 - Cyflwyno gwasanaeth effeithiol sydd â ffocws cyhoeddus ac sy'n sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno.

Bydd fy swyddfa yn parhau i wella sut mae'n cyflawni ei gwaith, gan sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno. Byddwn ni'n mesur pa mor effeithiol mae ein gwasanaethau o ran cyrraedd grwpiau â nodweddion a amddiffynnir, ac yn gwerthuso profiad y grwpiau hynny a'r cyhoedd yn gyffredinol o'n gwasanaethau.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 3 – Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth er mwyn galluogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir

Bydd fy swyddfa'n ceisio hybu cyfle cyfartal, ac yn herio camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth y rhai sydd â nodwedd a amddiffynnir. Byddwn yn gwneud hyn drwy geisio deall profiadau a barn plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir a datblygu a hyrwyddo adnoddau, dealltwriaeth a gwybodaeth. Byddwn ni'n ceisio meithrin perthynas dda rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a'r rhai nad ydynt.

Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 – Cyflogaeth, tâl a hyfforddiant – Creu gweithlu cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hyrwyddo arferion rheoli pobl a pherfformiad sy'n esiampl i eraill, gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chyraddoldeb.

Fel cyflogwr, bydda i'n sicrhau fy mod i'n creu gweithlu cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hybu arferion rheoli pobl a pherfformiad sy'n esiampl i eraill gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chyraddoldeb. Rwyf am arwain sefydliad sy'n amrywiol, lle mae'r gweithlu'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u trin yn deg a lle mae effaith cyfle cyfartal yn cael ei chydabod gan y staff.

Cynllun gweithredu yn amlinellu sut bydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflawni ei hamcanion cydraddoldeb
I'w adolygu bob chwarter gan y tîm rheoli, gan bennu amcanion newydd bob mis Ebrill

Amcan Cydraddoldeb Strategol 1 – Arweinyddiaeth Gorfforaethol, Llywodraethu a phrosesau'n arwain at amcanion cydraddoldeb yn cael eu cynnwys ym mhob proses gynllunio gorfforaethol.

Nodwedd a Amddiffynnir a Cham Gweithredu	Amserlen	Y Canlyniad a Ddisgwylir	Cynnydd
<p>Sefydlu grŵp ymgynghorol o blant a phobl ifanc a grŵp cyfatebol o ymgynghorwyr sy'n oedolion, i roi cefnogaeth a chynghor i'r Comisiynydd, gan sicrhau atebolrwydd, arweinyddiaeth a llywodraethu da. Lle bo modd, sicrhau bod aelodaeth y grwpiau'n cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n gallu adlewyrchu profiadau grwpiau â nodweddion a amddiffynnir.</p> <p>Nodwedd a Amddiffynnir - Oed, Rhyw, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Hil, Crefydd neu Gred.</p>	<p>Gorffennaf 2016 ac ymlaen trwy gyfnod y cynllun cydraddoldeb strategol.</p>	<p>Gwelir bod barn plant, pobl ifanc, ac oedolion sydd â nodweddion a amddiffynnir yn dylanwadu ar waith y Comisiynydd Plant.</p>	
<p>Cwblheir Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr holl Ddogfennau Cychwyn Prosiectau (offer cynllunio) ar gyfer y cynllun gwaith blynyddol.</p>	<p>Mehefin 2016 ac erbyn diwedd y chwarter cyntaf bob blwyddyn.</p>	<p>Bydd pob gwaith prosiect yn darparu tystiolaeth bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi cael sylw ac wedi dylanwadu ar ddyluniad prosiectau.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

Nodwedd a amddiffynnir - pob un.			
Bydd ein Hadroddiad Blynyddol yn cynnwys adran benodol ar ein Cydymffurfiaeth â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â sylw yn adrannau polisi yr adroddiad.	Yn flynyddol- mis Hydref.	Bydd yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir yn cynnwys adrannau penodol ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fel bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu craffu ar ein gwaith a'i drafod.	
Nodwedd a amddiffynnir - pob un.			
Mae ein cynllun strategol 3 blynedd a'n cynlluniau gwaith blynyddol yn cynnwys llysoedd gwaith arbennig sy'n ymwneud â chydraddoldebau Nodwedd a amddiffynnir - Oed, Hil, Crefydd neu Gred.	Cynllun Strategol Ebrill 2016 – 2019. Cynllun Gwaith Blynyddol 2016/17, 2017/18 a 2018/19.	Bydd paratoi adroddiadau ar y cynlluniau gwaith blynyddol a strategol yn ein galluogi i gasglu tystiolaeth ynghylch hybu cyfle cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt.	
Cyhoeddi tystiolaeth gysylltiedig â chydraddoldeb a gasglwyd trwy ymchwil ac arolygon, e.e. arolygon Beth Nesa ac adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2016.	Yn parhau yn ystod 2016/17.	Rhannu'r wybodaeth a'r safbwyntiau a gasglwyd gan blant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o dystiolaeth berthnasol i gydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, a hyrwyddo'r ddyletswydd gyffredinol.	
Nodwedd a amddiffynnir - Oed, Rhyw, ac Anabledd.			
Adolygu a diweddarau'r systemau sydd gennym eisoes ar gyfer casglu data cydraddoldeb, gan sicrhau bod y data a gesglir yn addas at y diben ac yn llywio'r canlyniadau	Mawrth 2017	Byddwn ni'n eglur o ran y math o ddata cydraddoldeb y byddwn ni'n eu casglu, er mwyn darparu tystiolaeth o'r canlyniadau cydraddoldeb rydym ni'n awyddus i'w cyflawni. Bydd gennym ni systemau ar waith i gasglu'r holl ddata perthnasol yng nghyswllt cydraddoldebau.	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
 Sally Holland

cydraddoldeb rydym ni'n gobeithio eu cyflawni.			
--	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb Strategol 2 - Darparu gwasanaeth effeithiol sy'n sicrhau bod anghenion y cyhoedd yn ganolog i sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflwyno.

Cam Gweithredu	Amserlen	Y Canlyniad a Ddisgwylir	Cynnydd
Y Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor i ddatblygu a gweithredu adborth defnyddwyr gwasanaeth. Nodwedd a amddiffynnir - pob un.	Hydref 2016.	Mae'r gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn gallu darparu tystiolaeth ei fod yn diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir, a lle nad yw hynny'n digwydd, bydd yn amlygu meysydd lle mae angen rhagor o ddatblygiad a hyfforddiant.	
Datblygu llyfr achosion Ymchwiliadau a Chyngor i ddarparu dadansoddiad a data ynghylch gwaith achosion sy'n dod i'r swyddfa. Bydd hyn yn cynnwys data am faterion cydraddoldeb a dadansoddiad ohonynt. Nodwedd a amddiffynnir - pob un.	Llyfr achosion arbrofol ym mis Gorffennaf 2016 ac wedi hynny bob dwy flynedd.	Bydd y llyfr achosion yn darparu dadansoddiad rheolaidd o ddata cydraddoldebau yng nghyswllt achosion y deuir â hwy at ein sylw.	
Ymgynghori ar newidiadau i'n gwefan a'u rhoi ar waith. Nodwedd a amddiffynnir - pob un.	Mawrth 2017.	Bydd gennym ni bolisi hygyrchedd llawn ar ein gwefan, a bydd yn hygyrch i bawb.	
Hyfforddiant blynyddol i'r holl staff ar faterion cydraddoldeb, megis profiadau ac anghenion grŵp	Mehefin 2016.	Bydd gan staff sy'n gweithio i Gomisiynydd Plant Cymru fwy o ddealltwriaeth a gwybodaeth am fywydau dyddiol plant a phobl ifanc sydd â nodwedd a amddiffynnir a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu.	Hyfforddiant wedi'i ddarparu i holl staff ComPlantCymru ar Islam ac Islamoffobia, fel bod staff yn deall y

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
 Sally Holland

<p>penodol sydd â nodweddion a amddiffynnir.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Hil, Crefydd neu Gred, Anabledd.</p>			<p>pwysau a'r materion mae Mwslimiaid ifanc a'u teuluoedd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig yn eu hwynebu (Mehefin 2016).</p> <p>Hyfforddiant wedi'i ddarparu i'r holl staff am anabledd a hawliau plant gan aelod o Lysgenhadon Cymunedol ComPlantCymru (Awst 2016).</p>
<p>Adolygu'r polisiau mewnol canlynol i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn addas at y diben, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisi a Gweithdrefn Rheoli Iechyd a Llesiant Gweithwyr; • Polisi a Gweithdrefn Dysgu a Datblygu; a • Pholisi a Gweithdrefn Rheoli Tanberfformiad. <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>	<p>Mawrth 2017.</p>	<p>Sicrhau bod y gwaith o adolygu a diwygio Polisiau a Gweithdrefnau mewnol yn rhoi sylw i ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng nghyswllt nodweddion a amddiffynnir, ac yn sicrhau nad yw'r staff yn dioddef camwahaniaethu yng nghyswllt unrhyw nodwedd a amddiffynnir.</p> <p>Bod strwythurau a strategaethau ar waith i roi i reolwyr y gallu i reoli amrywiaeth a chynhwysiant yn effeithiol.</p>	
<p>Datblygu cynllun gweithredu i ddiwallu anghenion pobl ifanc traws* fel y'u nodwyd yn y Siarter Traws*Newid</p>	<p>Tachwedd 2016.</p>	<p>Bydd Comisiynydd Plant Cymru a'i swyddogion yn parchu hawliau pobl ifanc traws* yn unol â'r siarter Traws*Newid.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
 Sally Holland

Nodwedd a amddiffynnir - Ailbennu rhywedd.			
--	--	--	--

Amcan Cydraddoldeb Strategol 3 – Datblygu a hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth er mwyn galluogi eraill i ymateb i anghenion plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir

Cam Gweithredu	Amserlen	Y Canlyniad a Ddisgwylir	Cynnydd
Y Tîm Cyfranogiad i fapio'r holl randdeiliaid cyfredol er mwyn sicrhau bod pawb sydd â nodweddion a amddiffynnir yn cael eu cwmpasu. Nodwedd a amddiffynnir - pob un.	Mawrth 2017.	Bydd gennym ni gronfa ddata gyfredol, hygyrch o grwpiau a rhwydweithiau cefnogi i blant a phobl ifanc, a fydd yn ein galluogi i gyfathrebu a chyrchu barn amrywiaeth eang o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion a amddiffynnir.	
Diwygiwyd Strategaeth Cysylltiadau Allanol 2016 er mwyn sicrhau bod yr awydd i symud ymlaen gyda'r agenda cydraddoldeb yng Nghymru yn cael ei adlewyrchu mewn ymgysylltiad strategol â chyrff eraill megis Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Stonewall, Traws*Newid ac eraill. Nodwedd a amddiffynnir – pob un	Rhagfyr 2016.	Bydd y strategaeth cysylltiadau allanol ddiwygiedig yn helpu i sicrhau bod y Comisiynydd yn parhau wedi'i hymgysylltu'n strategol ag ystod wedi'i thargedu o sefydliadau a rhwydweithiau a fydd yn ei galluogi i glywed gan sefydliadau sy'n hybu hawliau plant a phobl ifanc sydd â nodwedd a amddiffynnir, a gweithio gyda nhw.	
Datblygu pecyn symbolau Darllen Hawdd ar CCUHP gyda Chomisiynwyr	Tachwedd 2016.	Bydd plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael cyfle i ddysgu am eu hawliau o dan CCUHP trwy adnodd a ddatblygwyd yn benodol ar eu cyfer.	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

<p>Plant eraill y Deyrnas Unedig, ar gyfer plant ag anableddau dysgu.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Oed ac anabledd.</p>			
<p>Integreiddio CCUHP i gyrff cyhoeddus.</p> <p>Datblygu datganiad dull gweithredu clir ar sail hawliau plant er mwyn hysbysu awdurdodau cyhoeddus ynghylch gwreiddio hawliau plant wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Cynhyrchu canllawiau ar roi dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar waith, i'w ddefnyddio gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Rhoi arweiniad i awdurdodau cyhoeddus ynghylch gweithredu mewn modd seiliedig ar hawliau plant wrth gyflawni'r dyletswyddau perthnasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a</p>	<p>Mawrth 2017</p>	<p>Cynnydd yn nifer y cyrff gwasanaethau cyhoeddus sy'n mabwysiadu ac yn gweithredu CCUHP.</p> <p>Bod ymrwymiad i CCUHP yn amlwg ym mwyafrif cynlluniau byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyfranogiad PPI a chynlluniau seiliedig ar hawliau ar gyfer eu cyflawni.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

<p>Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</p> <p>Datblygu adnodd ar y we ar gyfer cyrff cyhoeddus, gydag enghreifftiau o sut mae cyrff cyhoeddus wedi dechrau ymgysylltu â CCUHP a chymhwysol'i egwyddorion. Byddwn ni'n gwneud hynny mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Abertawe a Bangor a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>			
<p>Datblygu adnodd (Ffilm) a fydd yn hybu hawliau ac yn dathlu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli rhwng yr hen a'r ifanc, gan wrthweithio'r stereoteipiau negyddol sy'n bodoli rhwng y gwahanol genedlaethau.</p> <p>Datblygu cynllun addysgu ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn archwilio materion sy'n pontio'r cenedlaethau yn yr ystafell ddosbarth. Mae hwn yn</p>	<p>Tachwedd 2016</p>	<p>Adnodd ar-lein sy'n derbyn sylw cadarnhaol yn y cyfryngau, gan ddarparu nifer fawr o drawiadau i'r adnodd ar bob un o dudalennau gwe y swyddfa, a sylwadau cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol yng nghyswllt yr adnodd.</p> <p>Mae ein hysgolion Llysgenhadon yn defnyddio'r adnodd i drafod materion sy'n pontio'r cenedlaethau, ac i feithrin cysylltiadau da rhwng yr hen a'r ifanc.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

<p>ddarn o waith ar y cyd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Oed.</p>			
<p>Pontio ar gyfer Ymadawyr Gofal - Prosiect sy'n canolbwyntio ar gasglu profiadau ymadawyr gofal yng nghyswllt tai, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan rannu enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol gydag aelodau etholedig fel eu bod yn eu symud ymlaen fel rhiant corfforaethol cyfrifol, a chyda Llywodraeth Cymru i ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol ar lefel genedlaethol.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Oed</p>		<p>Mwy o gynlluniau gwaith, dysgu a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc a/neu fwy o fanteisio ar y llefydd sydd ar gael eisoes.</p>	
<p>Datblygu cynllun gwrs ar Islamoffobia - Creu adnodd ar-lein i ddisgyblion ysgol uwchradd er mwyn sbarduno trafodaeth ynghylch Islamoffobia i gynhyrchu dealltwriaeth ac empathi ynghylch y materion mae Mwslimiaid ifanc yn eu hwynebu a dysgu am Islam yn gyffredinol.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Hil, Crefydd neu Gred.</p>		<p>Bydd disgyblion ysgol uwchradd yn cael cyfle i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Islam ac Islamoffobia.</p> <p>Gwell agweddau at Islam/Fwslimiaid ymhlith pobl ifanc sydd ddim yn Fwslimiaid a hybu cytgordd yn y cysylltiadau rhwng hiliau.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
 Sally Holland

<p>Datblygu rhaglen Llysgenhadon mewn ysgolion uwchradd i gynyddu ymwybyddiaeth o CCUHP a'r Comisiynydd Plant ymhlith disgyblion ysgol uwchradd. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc sydd â nodweddion a amddiffynnir.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Oed.</p>		<p>Estyn y gwaith o hyrwyddo CCUHP a Chomisiynydd Plant Cymru i ddisgyblion ysgol 11-18 oed, ac ymgysylltu'r grŵp oed yma mewn gweithgareddau seiliedig ar hawliau.</p>	
---	--	---	--

Amcan Cydraddoldeb Strategol 4 – Cyflogaeth, tâl a hyfforddiant – Creu gweithlu cefnogol, cynhwysol a grymusol trwy hyrwyddo arferion rheoli pobl a pherfformiad sy'n esiampl i eraill, gan ddefnyddio tystiolaeth gysylltiedig â chydaddoldeb.

Cam Gweithredu	Amserlen	Y Canlyniad a Ddisgwylir	Cynnydd
<p>Bydd ein hadroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn cynnwys adran benodol ar ein cydymffurfiaeth ag adran tâl a hyfforddiant y Ddyletswydd Cydraddoldeb.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>	<p>Hydref 2016 ac yn flynyddol.</p>	<p>Byddwn ni'n gallu darparu tystiolaeth bod y sefydliad yn cydymffurfio ag adran tâl a hyfforddiant cyflogaeth y Ddyletswydd Cydraddoldeb.</p>	
<p>Casglu a dadansoddi gwybodaeth yng nghyswllt swydd, gradd, cyflog, math o gontract a rhyw, gan ddatblygu cynllun gweithredu i</p>	<p>Hydref 2016 ac yn flynyddol.</p>	<p>Byddwn ni'n gallu darparu tystiolaeth bod hyn yn darparu gwasanaeth nad yw'n camwahaniaethu o ran swyddi, graddau a chyflog a mathau o gontract, neu'n datblygu cynlluniau i leihau anghydaddoldeb lle nodwyd bod hynny'n bodoli.</p>	

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales
Sally Holland

<p>ymdrin ag unrhyw wahaniaethau cyflog tymor hir ar sail rhywedd a nodwyd.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>			
<p>Casglu a dadansoddi gwybodaeth am y gweithlu yng nghyswllt yr holl nodweddion a amddiffynnir, gan nodi a yw'r gweithlu'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu a datblygu camau gweithredu cadarnhaol i ymdrin ag unrhyw fylchau.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>	<p>Ebrill 2016 - Mawrth 2020.</p>	<p>Bydd ein gweithlu'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, i'r graddau y mae hynny'n bosibl.</p>	
<p>Datblygu profiad gwaith, interniaethau a chynlluniau lleoli.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - Oed.</p>	<p>Mawrth 2017 er mwyn i'r cynlluniau a ddatblygwyd gael eu rhoi ar waith yn 2017/18.</p>	<p>Bydd isafswm o 3 pherson ifanc wedi cael cyfle i dderbyn profiad cyflogaeth gwerthfawr gyda ni, gan gynyddu eu gallu i fynd i'r gweithlu oedolion.</p>	
<p>Adolygu ein polisi caffael presennol a'r dogfennau tendr cysylltiedig i asesu a yw'n hybu cydraddoldeb.</p> <p>Nodwedd a amddiffynnir - pob un.</p>	<p>Mawrth 2017.</p>	<p>Mae polisiâu a dogfennau caffael yn darparu cyfle i hybu cydraddoldeb.</p>	

Trefniadau i fonitro cynnydd

Mae cyfrifoldeb ar fy holl aelodau staff i sicrhau bod ffocws ar gydraddoldebau yn darparu sylfaen ar gyfer sut maen nhw'n gweithio ac yn rhan annatod o'u gwaith. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y gall y ffocws ar gydraddoldeb fynd ar goll yng ngwaith beunyddiol y swyddfa heb lywodraethiant effeithiol. Rwyf felly wedi cyflwyno strwythur staffio sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am gydraddoldeb ar aelod o'm Tîm Rheoli. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws ar gydraddoldebau yn cael ei gynnal ar lefel strategol a gweithredol, a'i fod yn dod yn rhan annatod o waith y sefydliad.

Bydd y Tîm Rheoli yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb bob chwarter, a bydd yn cyfrannu at bennu'r amcanion blynyddol.

Hyrwyddo Gwybodaeth a Dealltwriaeth ymhlith y staff yng nghyswllt materion cydraddoldeb

Rwy'n ymroddedig i ddarparu sesiynau datblygu staff rheolaidd i'r holl weithwyr bob blwyddyn ariannol, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o ran dysgu a datblygu sydd wedi'u pennu naill ai'n statudol, neu y bernir eu bod yn hanfodol i'r holl staff.

Mae'r Tîm Rheoli wedi cytuno y bydd rhan orfodol o'r rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer yr holl staff bob blwyddyn yn cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb. Er mwyn i ddysgu gael ei ystyried yn orfodol, rhaid nodi ei fod yn hanfodol i'r holl staff gan y Tîm Rheoli. Fel arfer bernir bod dysgu'n orfodol pan fydd rhwymedigaeth i gyflwyno'r dysgu ar sail iechyd a diogelwch, neu ryw ddyletswydd gofal arall tuag at staff neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

Er mwyn sicrhau ymhellach bod dealltwriaeth o gydraddoldeb a chymhwyso hynny yn rhan annatod o waith fy swyddogion, rwy'n ymroddedig i sicrhau bod gan bob aelod o'm staff amcan cydraddoldeb fel rhan o'u cynllun datblygiad personol blynyddol.